# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref gofal Cilymaenllwyd**

**Cartref gofal Cilymaenllwyd**
**Pwll**
**Llanelli**
**SA15 4RB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/05/2024

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024._**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref gofal Cilymaenllwyd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barleybind Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Tachwedd 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref gofal Cilymaenllwyd yn hapus ac yn gael gofal a chymorth gan staff cyfeillgar a pharchus. Mae'r staff yn cael eu harwain gan reolwr profiadol a deallgar sy'n sicrhau eu bod wedi cael hyfforddiant ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rôl. Mae'r awyrgylch yn dawel a chartrefol ac mae gan y staff gofal yr amser i ddiwallu anghenion gofal personol yr unigolion gan sicrhau y caiff eu hiechyd meddwl ei hyrwyddo ar yr un pryd. Caiff y bobl y cyfle i wneud penderfyniadau ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd.

Caiff yr adeilad a'i gynnwys eu cynnal a'u cadw ac mae archwiliadau yn sicrhau ei fod yn lle diogel i fwy a gweithio ynddi. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymdrechu i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal eu llunio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn nodi meysydd o gryfder ac unrhyw feysydd lle y gellir gwneud gwelliannau.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yng nghartref gofal Cilymaenllwyd. Cânt eu trin ag urddas a pharch, a chaiff eu hawliau eu cynnal. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff. Defnyddir hiwmor a thynnu coes yn briodol sy'n creu awyrgylch cyfeillgar a hamddenol. Dywedodd un unigolyn, "*It's perfect, we have a laugh*" a dywedodd unigolyn arall "*They (staff) are marvellous, 12 out of 10*". Gall y bobl wneud dewisiadau drwy gydol y dydd. Maent yn dewis faint o'r gloch maent am godi, lle maent yn dymuno treulio eu diwrnod a'r hyn maent am ei fwyta. Darperir dewis o ddau brif bryd bwyd amser cinio a gyda'r nos ond cynigir rhywbeth arall os nad ydynt yn hoffi unrhyw beth ar y fwydlen.

Mae safbwyntiau'r bobl o bwys ac mae eu lleisiau'n cael eu clywed. Caiff cynlluniau gofal personol eu creu a'u hadolygu gyda'r unigolion a/neu eu cynrychiolwyr. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr a chymerir eu safbwyntiau a'u dymuniadau i ystyriaeth. Caiff holiaduron am ansawdd y gofal a ddarperir eu dosbarthu ddwywaith y flwyddyn. Gwelsom ddetholiad o'r holiaduron diweddaraf sy'n dangos bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus iawn â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael.

Caiff y bobl eu hannog i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom un person yn rhoi colur ar ei hun cyn mynd lawr y grisiau am y dydd ac roedd gwasanaeth trin gwallt ar gael yn y gwasanaeth. Mae'r cydgysylltydd gweithgareddau yn ystyried anghenion pob person a dywedodd wrthym, "*I cater for individual interests if I can, I read poetry to one person who is in bed. They like routine, I plan a month in advance*". Mae'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau adrodd straeon, diddanwyr yn ymweld â'r gwasanaeth, teithiau allan am bysgod a sglodion wrth lan y môr neu bryd mewn tafarn lleol ac ymweliad gan alpacas. Dywedwyd wrthym, "*Music is big here*" a gwelsom bobl yn mwynhau diddanwr yn canu gyda nhw ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd un aelod o deulu wrthym, "*He has settled very well, he enjoys the music and will have a little jig*". Dywedodd y staff wrthym fod rhai pobl yn mwynhau cerdded i'r cae ar ben yr ardd i weld y ceffylau yn y cae. Mae sgwrsio â phobl a hel atgofion hefyd yn weithgaredd y mae'r bobl yn mwynhau gyda'r staff a gyda'i gilydd. Mae lluniau o'r bobl yn mwynhau gweithgareddau yn cael eu postio ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol preifat sydd ar gael i'r teuluoedd. Mae'r darparwr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cydberthnasau gyda ffrindiau a theulu a chroesewir ymwelwyr i'r cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff gofal sy'n gyfeillgar a pharchus. Gwelsom staff gofal yn helpu'r bobl mewn modd pwyllog a hamddenol sy'n adlewyrchu'r awyrgylch yn y gwasanaeth. Mae cynlluniau gofal a chymorth personol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r bobl am gael eu cefnogi a'u hanghenion cyfredol. Caiff y rhain eu creu gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr ac maent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae dewisiadau'r bobl wedi eu cofnodi'n glir ac maent yn cynnwys manylion fel faint o siwgr maent yn hoffi cael yn eu te. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg a gwelsom fod rhai dogfennau allweddol ar gael yn hawdd yn Gymraeg.

Mae'r cynlluniau personol yn hyrwyddo ethos o alluogi a chaiff y bobl eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl. Caiff iechyd meddwl a chorfforol y bobl eu hyrwyddo a gwneir atgyfeiriadau amserol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol am gymorth ychwanegol pan fydd anghenion yn newid. Dywedodd un perthynas wrthym, *"They are very much on the ball when his needs change".* Mae gan feddyg teulu gydberthynas waith agos â'r bobl yng nghartref Cilymaenllwyd ac mae'n ymweld â'r cartref unwaith yr wythnos. Mae'r meddyg teulu yn adolygu pob person dros gyfnod o dair wythnos neu pan fydd angen. Roedd nyrs ardal yn bresennol yn ystod yr arolygiad a dywedodd wrthym, *"They are very attentive to people and are always helpful, they have a personal touch".* Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu gwahodd i gymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r cynlluniau personol sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Dywedodd un perthynas wrthym, *"We are so satisfied, we were asked if we wanted to attend the review but are happy to do it by phone as we have nothing to say".*

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae'n ofynnol i'r staff roi mynediad i'r ymwelwyr a gofynnir iddynt lofnodi llyfr wrth gyrraedd a gadael. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr archwiliadau a gwasanaethu'r adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol er mwyn sicrhau diogelwch y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r cartref. Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Mae system gadarn ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel a chynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Cofnodir cwympiadau hefyd a chânt eu gwerthuso'n fisol. Gwneir atgyfeiriadau am asesiad pellach pan fydd angen er mwyn lleihau'r risg o gwympiadau pellach ac o niwed damweiniol.

## Yr Amgylchedd

Mae Cilymaenllwyd yn adeilad Georgaidd mawr. Mae'n groesawgar, yn lân ac yn gyfforddus. Oherwydd oedran yr adeilad, mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio parhaus yn yr adeilad. Cyflogir swyddog cynnal a chadw a bydd yn cyflawni gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd yn ôl yr angen gan staff a'r rheolwr. Mae cynllun cynnal a chadw parhaus ar gyfer gwaith atgyweirio mwy a gelwir ar weithwyr allanol ar gyfer swyddi arbenigol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cynnal arolygiadau trylwyr o'r adeilad a'r cyfarpar. Caiff cynllun gweithredu ei greu ar gyfer unrhyw waith sy'n ofynnol a chaiff hyn ei adolygu yn ystod ymweliad canlynol yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn hyderus y bydd y rheolwr yn sicrhau y caiff unrhyw waith ei gwblhau. Cynhaliodd tîm rheoli heintiau'r bwrdd iechyd lleol arolygiad yn ddiweddar. Roedd hwn hefyd yn drylwyr iawn a gwelsom fod y rheolwr a'r darparwr yn mynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella.

Mae'r cartref yn cefnogi'r bobl i symud o gwmpas yn rhydd, mae'r coridorau'n cael eu cadw'n glir ac mae'r canllawiau yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n llai sefydlog. Mae drysau'r ystafelloedd gwely mewn gwahanol liwiau ac mae arnynt lun i helpu'r bobl i ffeindio eu hystafelloedd. Arddangosir asesiad risg tân â chod lliw ar ddrws pob ystafell wely hefyd er mwyn bod o gymorth pe bai tân. Cynhelir ymarferion tân ac mae gan bob person Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng sydd ar gael yn hawdd mewn ffolder yn ardal y dderbynfa. Mae'r archwiliadau'n cynnwys archwiliad Iechyd a Diogelwch a gwasanaethu cyfarpar, megis cyfarpar diffodd tân sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae'r gegin wedi cael sgôr o bum seren ar ôl cael arolygiad iechyd yr amgylchedd.

Mae gwahanol ardaloedd cymunedol i'r bobl ymlacio ynddynt, naill ai'n dawel ar eu pen eu hunain neu i ymuno mewn gweithgareddau a sgwrsio gydag eraill. Mae gan yr ardal fwyta fyrddau o feintiau amrywiol lle gall y bobl ddewis eistedd gydag eraill neu ar eu pen eu hunain. Mae'r cynllun yn galluogi amser cinio i fod yn weithgaredd cymdeithasol a gwelsom grwpiau o bobl yn eistedd yn sgwrsio yn ystod amser cinio ac yn helpu ei gilydd mewn ffordd naturiol. Anogir siaradwyr Cymraeg i eistedd gyda'i gilydd er mwyn iddynt allu sgwrsio yn eu mamiaith. Mae lawntiau mawr y tu allan lle gall y bobl eistedd yn ystod tywydd cynnes. Cynhelir digwyddiadau cymdeithasol ar y lawntiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn ac mae ganddo system effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a dadansoddi ansawdd y gofal a ddarperir. Cesglir gwybodaeth o ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol ac o'r ymgynghori â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr a'r staff. Adlewyrchir hyn yn adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol sy'n dangos meysydd o gryfderau a meysydd sydd angen sylw yn glir, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn hyderus y bydd y rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd mewn cynllun gweithredu ac adolygiadau yn yr ymweliad canlynol. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr gydberthynas gwaith cadarnhaol a chefnogol ac mae hyn yr un peth drwy gydol y tîm o staff. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn "*very approachable" ac yn "understanding*" a bod yr Unigolyn Cyfrifol "*Will always ask how I am*".

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac roedd y ffeiliau personol yr edrychwyd arnynt yn cynnwys y wybodaeth ofynnol gan gynnwys geirdaon a gwiriadau megis Dogfen Adnabod a Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r profiad gofynnol a bod ganddynt y cymeriad i gyflawni eu rôl. Cyn i'r staff gofal orfod gweithio ar eu pen eu hunain maent yn cael cyfnod sefydlu sy'n cynnwys cysgodi staff mwy profiadol. Mae rhaglen hyfforddiant yn rhoi hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol i'r staff yn seiliedig ar anghenion penodol yr unigolion megis Dementia a Diabetes. Dywedodd y staff wrthym bod yr hyfforddiant 'Bws Dementia' a ddarparwyd yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r cyflwr a wellodd eu dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r cofnodion yn dangos bod staff yn cael sesiwn oruchwylio un i un yn rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt a nodi meysydd am hyfforddiant a chymorth pellach. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym "*X (manager) is very good and will always try to help you*". Mae rotas y staff yn dangos bod niferoedd digonol o staff ar ddyletswydd bob dydd a chaiff y rhain eu creu ymlaen llaw er mwyn galluogi'r staff i wneud cynlluniau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*X (manager) is flexible with shifts to fit in around my family".*

Gwnaethom edrych ar sawl polisi allweddol a nodwyd gennym eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir gyda gwybodaeth berthnasol am y bobl a'u cynrychiolwyr. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu pe bai ganddynt unrhyw bryderon a dywedodd un person, "*I have nothing to complain about, there is nothing to complain about here".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/06/2024